

## **Clercod y Tribiwnlys**

**£25,878 to £40,478 y flwyddyn**

**Swyddfa Casnewydd - neu yn y cartref ledled Cymru**

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru am benodi hyd at ddau Glerc Tribiwnlys. Mae Clercod Tribiwnlysoedd yn darparu gwasanaethau cymorth i aelodau'r tribiwnlys. Un o'r prif swyddogaethau yw darparu cyngor ystafell glyw ar gyfraith trethiant lleol yng Nghymru (Treth y Cyngor ac Ardrethi Busnes). Rhoddir hyfforddiant ar hyn.

Rydym yn agored i geisiadau gan raddedigion prifysgol neu bobl sydd â phrofiad a/neu gymwysterau referniw lleol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi i bwynt ar y raddfa gyflog sy'n briodol i'w cymwysterau a'u gwybodaeth gyfredol.

Os ydych yn byw yng Nghasnewydd neu'n agos ato, eich gweithle fydd ein swyddfa yng Nghasnewydd. Os ydych yn byw yn rhywle arall, byddwch yn gweithio gartref. Bydd angen teithio'n rheolaidd ledled Cymru, ac i'w gilydd bydd hyn yn golygu bod angen aros oddi cartref dros nos. Bydd y Tribiwnlys yn talu eich costau teithio. Mae lwfans defnyddiwr car blynyddol (£1,239) hefyd yn daladwy.

Ewch i [www.valuationtribunal.wales](http://www.valuationtribunal.wales) am ragor o fanylion. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 16 Rhagfyr 2022.